**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU**
**SIR DDINBYCH 2020**

**Rhif 125 - Llefaru Unigol Bl 5 a 6**

# LLOEREN

Be weli di heddiw i fyny fry?
Weli di wal fawr Tsieina
Fel neidr droellog ddiddiwedd?
Weli di fynyddoedd yr Himalaya
Fel crychau ar groen hen wraig?
Weli di'r plancton ar arfordir yr Ariannin
Yn troelli'n las fel inc mewn dŵr?

Ysbïwr yn y nen,
Pa beth sydd tu draw i'r gorwel?
Ti a weli'r cwbwl –
Y camera symudol,
Y seren wib.

Glywi di'r daran, weli di'r mellt?
Wyt ti uwchlaw'r storm a'i helynt?

Brrr! Tic ... Crac!
Mae'r signal yn gwanhau.

Fel fflach, gwelaf di
Am eiliad fach,
Amrantiad pry,
Y lloeren yn llithro drwy'r ffurfafen.

Weli di Gymru
Fel crafanc ar lan y môr?
Tro'r lens arna i,
Rydw i yma yng nghesail y castell !
Yr Wyddfa yn gwarchod,
Y coedwigoedd fel mwsog,
A'r traethau yn euraidd ddisglair.

Pen pin ydw i
Ar y ddaear hon.
Dwyt ti'n ddim ond llychyn
Mewn ogof ddu.

LILI RAY